# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**28.11.25**




## Gair gan y Pennaeth ~ Headteacher's Greeting

Ynghanol paratoadau'r Nadolig, bu hi hefyd yn wythnos prysur! Bu Dosbarthiadau 1E a 2C ar daith i **Fferm Cefn Mabli** a chael amser braf yn dysgu am darddiad ein bwyd. Bu'r Cyngor Ysgol yn cyfarfod â'r Llywodraethwyr i nodi eu barn am yr ysgol a bu Ffion a Sophie yn cynrychioli'r ysgol yn lansiad fidio hyrwyddo addysg Gymraeg **'Ein Dinas, Ein Hiaith'**. Edrychwch ar y fidio – byddwch yn adnabod rhai wynebau cyfarwydd! Cliciwch yma

Fel y gwyddoch, mae tocynnau **Sioeau Nadolig** bellach ar werth. Gofalwch archebu eich tocynnau erbyn Dydd Mawrth. Byddwn yn rhyddhau unrhyw docynnau sydd yn weddill ar Ddydd Mercher 3.12.25. Mae'r canu a'r perfformio yn addo bod yn fendigedig, yn ôl yr egni sydd yn yr ymarferion! Gwych iawn!

Edrychwn ymlaen at fwrlwm y Ffair Nadolig wythnos i heddiw – Dydd Gwener 5/12 am 3.30. Mae rhagor o fanylion isod. Diolch eto am bob cefnogaeth a diolch i'r GRhA am eu gwaith paratoi. Edrychwn ymlaen at yr hwyl!

Bellach, gallaf gyhoeddi bod y pleidleisiau ar gyfer **etholiad rhiant-lywodraethwr** wedi'u cyfri. Diolch o bawb a bleidleisiodd ac a gynigodd eu henwau. Braf yw cyhoeddi bod **Cadi Wigley** wedi'u hethol i'ch cynrychioli fel rhiant-lywodraethwr. Llongyfarchiadau mawr!

* * * * * *

In the midst of the Christmas preparations, it's also been a busy week! Classes 1E and 2C travelled to Cefn Mabli Farm and had a great time learning about the origins of our food. The School Council met with the our Governors to express their views and Ffion and Sophie represented the school at the launch of a video promoting Welsh language education 'Our City, Our Language'. Have a look the video – you'll recognise some familiar faces! Click here

As you know, **Christmas Show** tickets are now on sale. Be sure to book your tickets by Tuesday. We will release any remaining tickets on Wednesday 3.12.25. The singing and performing promises to be wonderful, judging by the energy we are seeing in rehearsals! Gwych iawn, blant!

We look forward to the hustle and bustle of the Christmas Fayre a week into today – Friday 5/12 at 3.30. More details are below. Thank you again for all the support and thank you to the GRhA for their preparatory work. We look forward to the fun!

I can announce that the votes for our **parent-governor election** have now been counted. Diolch to all who voted and who nominated their service. It is my pleasure to announce that **Cadi Wigley** has been elected to represent you as a parent governor. Congratulations!

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Gwener / Friday 5.12.25**
Gwasanaeth Cofio Y Lan (Bl 4)
*Y Lan Memorial (Year 4)*

**5.12.25 @ 3.30pm**
Ffair Nadolig
*Christmas Fayre*

**9.12.25 a 10.12.25**
Cyngherddau Nadolig
*Christmas Concerts*

**Iau / Thursday 11.12.25**
Derbyn a 1C - Sioe Cyw
*Derbyn & 1C - Sioe Cyw*

**Gwener / Friday 12.12.25**
Meithrin bore - Sherman
*Morning Nursery - Sherman*

**Gwener / Friday 12.12.25**
2E – Theatr Sherman
*2E – Sherman Theatre*

**Llun / Monday 15.12.25**
Meithrin prynhawn - Sherman
*Afternoon Nursery - Sherman*

**Mercher / Weds 17.12.25**
2E – Theatr Sherman
*2E – Sherman Theatre*

**Mercher / Weds 17.12.25**
Sioe Nadolig 3C – 6C
*Christmas Show 3C – 6C*

**Gwener / Friday 12.12.25**
Diwedd Tymor
*End of Term*

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.
*Our live calendar is on our school website's homepage.*






## Dim ond wythnos i fynd!

Mae manylion pellach am docynnau, Groto Sion Corn, Jolly Cars, Cacennau a rhagor ar waelod y cylchlythyr hwn.

## Only a week to go!

Please scroll to the bottom of this Newsletter for more details on tickets, Santa's Grotto, Jolly Jars, Cakes and more!

## Bws Beics

Dyma ddyddiadau'r bws beics ar gyfer y tymor:

Dydd Gwener Rhagfyr 12

Gwisgwch lan – chi a'r beic!

**Bws Beics: Croeso i aelodau newydd bob amser!**

***Bike Bus: New members always welcome!***

## Bike Bus

The bike bus dates for this term are:

Friday December 12

Dress up and BLING YOUR BIKE!










### Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: Polisi Diogelu ac Plant

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

### Child Protection and Safeguarding

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: Safeguarding and Child Protection

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week

- Bydd tocynnau ffair yn cael eu gwerthu ar iard yr ysgol bob dydd wythnos nesaf. £5 am 12, neu £10 am 25 tocyn i wario ar stondinau y ffair. Bydd y tocynnau hefyd ar gael i brynu ar y noson.
- Os ydych am brynu tocynnau groto Siôn Corn, bydd aelod o'r CRhA yn gwerthu rhain ar yr iard hefyd, neu gysylltwch â chynrychiolwr CRhA eich grŵp i archebu.
- Peidiwch ag anghofio eich £1 i enwi ein dyn eira! Mae blwyddyn 6 yn mynd o amgylch bob dosbarth yn ddyddiol er mwyn i chi gael y cyfle i'w ennill.
- Byddem ni wrth ein bodd gyda chyfraniadau tuag at ein stondin cacennau os gwelwch yn dda. Croeso i chi brynu, neu os ydych chi am bobi, fydd tocynnau raffl am ddim i'r addurniad gorau! Dewch ag unrhyw gyfraniadau ffres i'r ysgol ar fore dydd Gwener os gwelwch yn dda.
- Mae cwpanau y 'jolly jars' wedi dod adref heddiw. Rhowch wybod os hoffech ragor o gwpanau.




- Tokens for the fair will be sold on the school yard every day next week. £5 for 12, or £10 for 25 tokens to spend on stalls in the fair. They'll also be available to buy on the night.
- If you'd like to buy tickets for Santa's grotto, then a member of the PTA will also be selling these on the yard, or contact your group PTA rep to order.
- Don't forget your £1 to name the snowman! Year 6 are going around the classrooms every day if you'd like the chance to win him.
- We'd love some contributions to our cake stall please. You're welcome to buy, or if you fancy getting your bake on, there'll be free entry into the raffle for the baker of the best decorated cake! Fresh cake contributions to be brought into school on the Friday morning please.
- The 'jolly jars' cups have come home today. Please let us know if you need more.

1E a 2C a daith i Fferm Cefn Mabli

1E and 2C on a visit to Cefn Mabli Farm





Lansiad Ein Dinas, Ein Hiaith

Launch of Our City, Our Language

Cliciwch i weld y fidios / Click to see the videos

Fidio Hir / Long fideo

Fidio byr / Short video







Hwyl fawr, ffrindau annwyl! ❤

Goodbye, dear friends! ❤

